# ADRODDIAD PWYLLGOR

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **TRWYDDEDU** |
| **DYDDIAD** | **27$^{ain}$ o Ebrill 2009** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYNLLUN CYFLWYNO GWASANAETH DIOGELWCH BWYD 2009/10** |
| **ARGYMHELLIAD** | **CYMERADWYO'R CYNLLUN CYFLWYNO GWASANAETH DIOGELWCH BWYD AR GYFER 2009/10** |
| **AWDUR** | **PENNAETH GWASANAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae adain o fewn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd sy'n ymdrin â gorfodi diogelwch bwyd sef yr adain diogelwch bwyd syn cynwys y tim hylendid bwyd ar timsafonau bwyd. Gwaith y adain yw gorfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd a hyrwyddo diogelwch bwyd o fewn busnesau bwyd sydd wedi'u lleoli yng Ngwynedd.

1.2 Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod lleol gynhyrchu cynllun cyflwyno gwasanaeth er mwyn cydymffurfio â chytundeb fframwaith a gyhoeddwyd ym mis Medi 2000. Mae'r FSA yn gofyn i aelodau awdurdodau lleol gymeradwyo'r cynllun cyflwyno gwasanaeth diogelwch bwyd ar gyfer eu hardal hwy. Yn achlysurol, mae awdurdodau lleol yn cael eu harchwilio yn erbyn y cytundeb hwn.

1.3 Mae'r cytundeb fframwaith yn nodi manylion yr hyn ddylid ei gynnwys yn y cynllun cyflwyno gwasanaeth sydd wedi'i gynllunio i ddangos amrediad eang o weithgareddau, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Y rhaglen arolygu sydd wedi'i chynllunio ar gyfer busnesau
- Sut rydym yn ymdrin â cheisiadau am wasanaethau a chwynion
- Y rhaglen samplo yn cynnwys casglu a dadansoddi data; a
- Gweithgareddau sydd wedi'u cyfeirio at hyrwyddo materion diogelwch a safonau bwyd.

1.4 Er bod y cynllun cyflwyno gwasanaeth bwyd lleol yn ddatganiad o'n hymrwymiad i ddatblygu gwasanaeth yr adain diogelwch bwyd, bydd yr FSA yn defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cynllun i asesu ein cyflwyniad o'r gwasanaeth a chymharu ein perfformiad yn erbyn awdurdodau eraill. Mae gan yr FSA bwerau cyfreithiol i gymryd drosodd waith rheoli'r gwasanaeth bwyd oddi wrth awdurdodau lleol sy'n methu bodloni safonau perfformiad.

1.5 Gan fod gorfodi diogelwch bwyd yn un o'r materion na all fod yn un o swyddogaethau'r Bwrdd, penderfynodd y Cyngor, wrth ddiwygio'r Cyfansoddiad mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf, 2006, ddirprwyo gwaith cymeradwyo'r cynllun i'r Pwyllgor Trwyddedu.

## 2. Y CYNLLUN

2.1 Cyflwynir y cynllun cyflwyno gwasanaeth diogelwch bwyd ar gyfer 2009/10 fel atodiad i'r adroddiad hwn.

2.2 Mae blaenoriaethau'r adain yn trosglwyddo i gynllun gwella'r Gwasanaeth gyda dangosyddion allweddol ar gyfer gwahanol weithgareddau. Drwy ymgorffori'r cynllun cyflwyno diogelwch bwyd i mewn i system rheoli perfformiad y Cyngor fel hyn, gall y Pennaeth Gwasanaeth Adran Rheoleiddio a'r Arweinydd Portffolio fonitro'r cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau bob chwarter, ac adrodd i'r Pwyllgor Craffu fel sy'n briodol.

## 3. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i aelodau'r pwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth Diogelwch Bwyd ar gyfer 2009/10.